Paper Reference: CLA (4)-13-11(p3)

At: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Ymchwiliad Pwyllgor Arfaethedig – Awdurdodaeth ar wahân i Gymru?**

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn gofyn i Aelodau gadarnhau y dylai pwnc ymchwiliad nesaf y Pwyllgor ymdrin â chael awdurdodaeth ar wahân i Gymru ac ystyried cylch gorchwyl yr ymchwiliad a chytuno arno.

## Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n cynnal ymchwiliad ar gael awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn dilyn yr ymchwiliad cyfredol ar y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU. Mae'r Pwyllgor wedi gorffen casglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwnnw a byddai nawr yn amser da i'r Aelodau gytuno ar gylch gorchwyl i'r ymchwiliad ar gael awdurdodaeth ar wahân i Gymru.

3. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi rhoi papur briffio ar wahân i'r Aelodau sy'n cynnwys gwybodaeth gefndir fanylach ar y mater, yn ogystal â'r cylch gorchwyl drafft a rhestr o'r tystion posibl. Os yw'r Aelodau'n fodlon, bydd cais am dystiolaeth yn cael ei gyhoeddi cyn toriad y Nadolig gyda'r bwriad o ddechrau casglu tystiolaeth lafar ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

4. Y cylch gorchwyl arfaethedig yw:

*"Cyfrannu at y ddadl gyhoeddus ar yr angen am awdurdodaeth ar wahân i Gymru drwy gasglu tystiolaeth arbenigol ar:*

- *ystyr y term "awdurdodaeth ar wahân i Gymru"*
- *y ddadl o blaid ac yn erbyn cael awdurdodaeth ar wahân i Gymru;*
- *goblygiadau ymarferol cael awdurdodaeth ar wahân ar gyfer y proffesiwn cyfreithiol a'r cyhoedd;*
- *sut mae awdurdodaeth ar wahân, gan ddefnyddio'r gyfraith gyffredin, yn gweithio yng Ngogledd Iwerddon; a*

*Chyflwyno adroddiad yn cynnwys argymhellion i'r Cynulliad."*

## Argymhelliad

5. Gwahoddir Aelodau:

- i gytuno y dylai ymchwiliad nesaf y Pwyllgor fod ar y cwestiwn o gael awdurdodaeth ar wahân i Gymru; ac
- i gytuno ar y cylch gorchwyl drafft a nodir uchod.

**Steve George**
**Clerc y Pwyllgor**

Tachwedd 2011